

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser, Porthaethwy

Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2025

Dyddiad cyhoeddi: 30 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	15
4.	Y camau nesaf .....	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	18
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r Ganolfan Harddwch a Therapi Laser ar 29 Medi 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrandao ar y cleifion
- Roedd gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnig
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer cael gwybod safbwyntiau'r cleifion.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar y cleifion ac a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys polisi atal a rheoli heintiau. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu dilyn, ac roedd cyfarpar diogelu personol a diheintyddion dwylo ar gael yn hawdd.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r staff yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael cyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafelloedd trin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon uchel
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn fodlon ar eu triniaethau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser dîm sefydledig ag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y tîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth dda ac roedd llinellau atebolrwydd clir. Roedd ethos cryf a diwylliant cadarnhaol yn bresennol, ac roedd y staff yn anelu i ddarparu gofal cleifion o safon uchel.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod y tîm staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod defnyddwyr awdurdodedig y peiriannau laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser
- Roedd y wybodaeth i gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydweithio'n dda fel rhan o dîm.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Gwasanaeth rhagorol, staff rhagorol. Fyddwn i ddim am fynd i unrhyw le arall. O'r radd flaenaf - bob amser.”*

*“Mae'r staff bob amser yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn. 5\*, byddwn yn ei argymhell yn fawr ac rwy'n hapus iawn fy mod i wedi dod o hyd i'r clinig.”*

*“Gwasanaeth o'r radd flaenaf. Staff proffesiynol a chwrtais, llawn dealltwriaeth.”*

*“Rwyf wedi cael triniaethau gwaredu blew drwy laser a thriniaethau laser ar gyfer y croen yma. Rwy'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol fy hun felly rwy'n ofalus iawn wrth ddewis pa driniaethau rwy'n eu cael a ble i'w cael. Mae'r clinig hwn wedi gwneud argraff dda iawn arna i. Staff gwybodus iawn.”*

*“Amgylchedd mor dawel a gofalgar.”*

#### Diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol cynhwysfawr cyn cael eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn cael unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod yr hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf ac yn cael eu cydlofnodi gan weithredwr y laser. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gofyn am eu hanesion meddygol cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

#### Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch pan wnaethant ymweld â'r clinig.

Roedd modd cloi drysau'r ystafelloedd trin, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd y cleifion yn cael tywelion er mwyn diogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn iddynt ddadwisgo os oedd angen.

Roedd ymgynoriadau yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod yn gwrando arnynt ac yn ateb unrhyw gwestiynau. Roedd sylwadau'r cleifion am y staff yn cynnwys:

*“Maent yn hynod ofalgar bob tro. Mae'r staff bob amser yn groesawgar, yn garedig iawn ac yn barod i helpu. Mae'n lleoliad hyfryd i gael triniaeth.”*

*“Mae'r staff yn broffesiynol iawn ac yn hynod brofiadol.”*

*“Mae pawb yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn.”*

### **Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol a ffurflen gydsynio a'u bod wedi cael prawf croen cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Dywedodd un claf wrthym:

*“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar iawn. Caiff hanes llawn ei gymryd a chynhelir ymgynghoriad llawn cyn yr ymweliad cyntaf. Maent yn rhoi cyngor cyn y driniaeth a chyngor ôl-ofal. Lleoliad cyfforddus a phroffesiynol. Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn trafod yr opsiynau ar gyfer triniaethau â'r staff.”*

Gwelsom fod y staff yn gofyn i'r cleifion gwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth, cyn cael prawf croen. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hanes meddygol yn ystod pob apwyntiad dilynol hefyd.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ei darllen i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau o ran triniaethau ac er mwyn iddynt gael manylion am y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom. Roedd pob claf yn cytuno'n gryf fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrandao arnynt.

Nododd 13 o'r 14 claf a gwblhaodd yr holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Nododd un claf y byddai'n well ganddo ddefnyddio'r Gymraeg a chadarnhaodd ei fod wedi cael cynnig y cyfle i gyfathrebu yn Gymraeg drwy gydol ei driniaeth. Nododd hefyd ei fod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y clinig.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Roedd un aelod o'r staff hefyd yn gallu cyfathrebu â chleifion yn Ffrangeg.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, roedd hanesion meddygol y cleifion yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod y driniaeth a ddewiswyd ganddynt yn addas.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol ac roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth o gofnodion o safon dda, a oedd yn ymdrin â phob rhan o daith y claf, cyn ac ar ôl y driniaeth.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y clinig yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Roedd mynediad da i'r adeilad. Roedd pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion â phroblemau symudedd yn gallu defnyddio dwy allan o'r tair ystafell a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer triniaethau laser, y dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau a'r cyfleusterau ymolchi. Mae digon o leoedd parcio ar gael hefyd.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Caiff dadansoddiad o adborth cleifion ei gyhoeddi ar wefan y clinig gan ddangos ei fod yn ymateb i adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.

Gallai'r cleifion roi adborth ar ddiwedd pob triniaeth drwy holiadur ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gellid rhoi adborth a sylwadau yn ddiennw hefyd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da iawn y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn y pum mlynedd diwethaf.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant tân.

Roedd yr allanfeydd brys yn weladwy, ac roedd poster lechyd a Diogelwch i'w weld.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg ar waith, fel tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân ac ymarferion tân bob chwe mis yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen i un o'r gweithredwyr laser adnewyddu ei hyfforddiant diogelwch tân. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod yr hyfforddiant diogelwch tân wedi cael ei adnewyddu.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ar y safle. Ar adeg yr arolygiad, roedd dau o'r pedwar gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Gwnaethom sôn wrth y rheolwr cofrestredig y dylai ystyried sicrhau bod pob gweithredwr laser yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod aelod arall o staff priodol ar gael pe bai'r staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn absennol. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod pob gweithredwr wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob ardal o'r gwasanaeth yn lân yr olwg ac roedd pob claf yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn'.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o drefniadau rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys rhestr wirio ddyddiol ar gyfer glanhau'r ystafelloedd trin, glanhau cyfarpar laser a gwelyau rhwng apwyntiadau a glanhau sbectolau cyn eu defnyddio. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaredu a chasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog.

Gwelsom fod angen adnewyddu'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer pob gweithredwr laser. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod pob gweithredwr laser wedi adnewyddu ei hyfforddiant.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn. Dywedodd y cleifion wrthym:

*“Mae'r clinig hwn yn gwbl broffesiynol, yn hynod lân ac mae pob technegydd yn ofalgar iawn sy'n eu helpu i roi triniaethau gwych.”*

*“Mae'n lân bob amser, mae'r staff yn ardderchog ac rwy'n cael gofal da bob tro. Rwyf bob amser yn cael gwybodaeth am ôl-ofal.”*

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol ac roedd contract ar waith gyda chlundwr gwastraff cymeradwy.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel un. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig y dylai pob gweithredwr laser gael hyfforddiant lefel dau. Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod pob gweithredwr laser bellach wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau.

Roedd polisi ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed a phlant. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, ynghyd â siartiau llif a manylion cyswllt a oedd yn rhestru'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd gan y peiriannau laser dystysgrif gwasanaethu a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau trin ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafelloedd trin i ddangos pan oedd y peiriannau laser yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cloi pan fydd y peiriannau'n cael eu defnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond ag allwedd y gellir eu hactifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r rheolwr cofrestredig yn ceisio cael safbwyntiau'r cleifion yn aml fel ffordd o hysbysu gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Hefyd, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl triniaethau a chyswllt dilynol â chleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn gwell drwy gydol cwrs o driniaeth.

### **Rheoli cofnodion**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion da yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol, nifer y dosau a manylion unrhyw effeithiau andwyol. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn ffordd drefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser ac yn rhedeg y clinig, a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rôl.

Gwelsom dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyfredol yn cael eu harddangos.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu ddyddiadau adolygu.

## **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwychod i AGIC amdanynt yn ddiweddar.

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y clinig system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

## **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Gwelsom fod proses recriwtio ar waith yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod unrhyw staff newydd yn ymgymryd â phroses sefydlu fanwl wedi'i dilyn gan gyfnod prawf â threfniadau goruchwyllo priodol. Rhoddwyd disgrifiadau swydd manwl i'r staff yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwelsom fod digon o staff wedi cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y clinig ac i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Gwelsom fod pob gweithredwr laser yn cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth ynghyd â hyfforddiant ar beiriannau penodol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gynnal ar gyfer pob gweithredwr laser er mwyn helpu i amddiffyn a diogelu'r cleifion.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nodwyd gennym fod angen i ddau o'r gweithredwyr laser adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.	Risg i ddiogelwch y cleifion ac effeithlonrwydd ymateb brys.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod hyfforddiant diogelwch tân y ddau weithredwr laser wedi cael ei adnewyddu.
Nodwyd gennym fod angen adnewyddu hyfforddiant atal a rheoli heintiau pob gweithredwr laser.	Risg i ddiogelwch y cleifion.	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod hyfforddiant atal a rheoli heintiau pob gweithredwr laser wedi cael ei adnewyddu.
Nodwyd gennym fod angen i bob gweithredwr laser gwblhau hyfforddiant diogelu lefel dau yn ogystal â hyfforddiant lefel un.	Mae hyfforddiant diogelu yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion sy'n agored i niwed ac	Trafodwyd y mater â'r rheolwr cofrestredig.	Cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad yn cadarnhau bod hyfforddiant diogelu lefel dau wedi cael ei gwblhau gan y pedwar gweithredwr laser.

amddiffyn yr unigolion hynny.		
-------------------------------	--	--

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser

**Dyddiad yr arolygiad:** 29 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Y Ganolfan Harddwch a Therapi Laser

Dyddiad yr arolygiad: 29 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.					